# Cofnodion

## Cyngor

Dyddiad: Dydd Mawrth, 24 Gorffennaf 2018

Amser: 5.00 pm

Bresennol: Cynghorwyr M Al-Nuaimi, J Cleverly, P Cockeram, M Cornelious, K Critchley, D Davies, C Evans, M Evans, C Ferris, D Fouweather, G Giles, J Guy, D Harvey, Councillor R Jeavons, C Jenkins, M Kellaway, M Linton, D Mayer, R Mogford, J Richards, M Spencer, T Suller, H Thomas, K Thomas, C Townsend, Councillor R Truman, T Watkins, M Whitcutt, R White, D Wilcox, D Williams, G Berry, J Clarke, V Dudley, Y Forsey, R Hayat, T Holyoake, P Hourahine, J Hughes, J Jordan, L Lacey, S Marshall, W Routley, H Townsend and J Watkins

Yn bresennol:

Ymddiheuriadau: Cynghorwyr I Hayat, A Morris, J Mudd, M Rahman and K Whitehead

---

1. **Rhagofynion**

i) **Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb**

Adroddodd y Swyddog Monitro ar ymddiheuriadau am absenoldeb.

Dymunodd y Cyngor fynegi eu cydymdeimlad â'r Cynghorydd Mudd ar ei phrofedigaeth deuluol ddiweddar.

ii) **Derbyn unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb**

Dim.

**iii) Derbyn unrhyw gyhoeddiadau gan y Maer**

Gwasanaeth Dinesig

Diolchodd y Maer i bawb a helpodd ddathlu dechrau ei flwyddyn yn ei swydd trwy fod yn bresennol yn Eglwys Gadeiriol Sant Gwynllyw ar ddydd Sul, 13 Gorffennaf.

90^fed^ Pen-blwydd GAVO

Arweiniodd y Maer longyfarchiadau'r Cyngor i GAVO (Cymdeithas Sefydliadau Gwirfoddol Gwent) ar eu pen-blwydd yn 90. Diolchodd i GAVO am yr anrhydedd o gael ymuno yn eu dathliadau ar 2 Gorffennaf ym mhresenoldeb EUB Tywysog Cymru ac EHB Duges Cernyw.

**Cymdeithas y Llynges Fasnachol**

Diolchodd y Maer i bawb fu yn y digwyddiad diweddar i ddadorchuddio plac i'r Llynges Fasnachol.

2. **Cofnodion**

Cynigiwyd y gwelliant a ganlyn i gofnodion y cyfarfod ar 24 Ebrill 2018:

- Ar Eitem 10 (Cwestiynau i Arweinydd y Cyngor) – i egluro fod Arweinydd y Cyngor heb gefnogi cyflwyno casgliadau biniau bob tair wythnos pan oedd yn Arweinydd.

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 24 Ebrill 2018 a 15 Mai 2018 fel rhai cywir yn amodol ar y gwelliant uchod.

3. **Penodiadau**

Penderfynwyd

i) Cymeradwyo argymhelliad Cyngor Ymgynghorol Sefydlog Addysg Grefyddol Casnewydd i benodi cynrychiolydd Dyneiddiol i'r grŵp hwnnw.

ii) Cymeradwyo'r enwebiadau a ganlyn:

Penodiadau Mewnol

| **Pwyllgor** | **Nifer Llefydd Gwag / newydd** | **Enwebiadau a Dderbyniwyd** |
|---|---|---|
| Pwyllgor Cynllunio | 1 yn newydd | Cyng. Christine Jenkins i gymryd lle Cyng. Malcolm Linton |
| Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd | 1 yn newydd | Cyng. Laura Lacey i gymryd lle Cyng. Jane Mudd |
| Pwyllgor Craffu Perfformiad – Pobl | 1 yn newydd | Cyng. Rehmaan Hayat i gymryd lle Cyng. Laura Lacey |
| Pwyllgor Craffu Perfformiad– Lle a Chorfforaethol | 1 yn newydd | Cyng. Ibrahim Hayat i gymryd lle Cyng. Laura Lacey |
| Pwyllgor Craffu Perfformiad– Partneriaethau | 1 yn newydd | Cyng. Jason Hughes i gymryd lle Cyng. Graham Berry |
| Pwyllgor Trosolwg a Rheoli Craffu | 1 yn newydd | Cyng. Graham Berry i gymryd lle Jason Hughes |
| Pwyllgor Safonau | 1 lle gwag | Dr Paul Worthington i'w benodi fel aelod cyfetholedig |
| Pencampwr Iaith Gymraeg | 1 lle gwag | Cyng. Jason Hughes |

Penodiadau i Gyrff Allanol

| Sefydliad | **Nifer Llefydd Gwag / newydd** | **Enwebiadau a Dderbyniwyd** |
|---|---|---|
| | | |
| Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg GCA | 1 yn newydd | Cyng. Deb Davies i gymryd lle Cyng. David Mayer |

Penodiadau i Gyrff Llywodraethol

| **Corff Llywodraethol** | **Nifer Llefydd Gwag / Ailbenodiadau** | **Enwebiadau a Dderbyniwyd** |
|---|---|---|
| Ysgol Gynradd y Gaer | 2 ailbenodiad | Cyng. Debbie Wilcox a'r Cyng. Mark Whitcutt |
| Meithrinfa Kimberley | 1 ailbenodiad<br><br>1 lle gwag | Anne Iles<br><br>Cyng. Paul Cockeram |
| Ysgol Gynradd Maesglas | 1 ailbenodiad | Cyng. Stephen Marshall |
| Ysgol Gynradd Parc Jubilee | 1 lle gwag | Cyng. Rehmaan Hayat |
| Ysgol Uwchradd Llanwern | 1 lle gwag | Katy Rees |
| Ysgol Gynradd y Tŷ-Du | 1 lle gwag | Chris Lacey |
| Ysgol Gynradd GR y Santes Fair | 1 lle gwag | IG |
| Ysgol Bryn Derw | 1 lle gwag | Anne Drewett |

4. **Materion yr Heddlu**

Rhoddodd y Prif Arolygydd Richard Blakemore ddiweddariad am flaenoriaethau plismona lleol cyfredol, cyn gwahodd cwestiynau gan Aelodau.

- Mewn ymateb i gwestiynau am gyffuriau a throseddau cysylltiedig, cadarnhawyd fod pob mater yn ymwneud â chyffuriau yn cael ei drin yn hynod ddifrifol, ac y mae Heddlu Gwent yn gweithio'n agos gyda'r awdurdod lleol a phartneriaid eraill i gymryd agwedd amlasiantaethol at y materion cymhleth hyn. Adroddwyd am gynnydd yn ddiweddar o ran mynd i'r afael a throseddau trefnedig difrifol a chyflenwi cyffuriau, gyda chyflogi Swyddog Troseddau Trefnedig Difrifol newydd.

- Mewn ymateb i nifer o gwestiynau am feiciau modur oddi ar y ffordd, amlinellodd y swyddog y camau a'r tactegau sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd i ymdrin â'r broblem hon.

- Diolchodd y Cyng. Jeavons i'r swyddogion am eu hymdrechion diweddar yn Lliswerry, yn enwedig o gwmpas Parc Black Ash.

- Diolchodd y Cyng. Hourahine i'r swyddog am fod yn bresennol yn ddiweddar yng nghyfarfod ward St Julian's a'r camau a ddeilliodd o hynny.

- Mewn ymateb i gwestiwn y Cyng. Holyoake, amlinellodd y swyddog y gwaith sy'n cael ei wneud i fynd i'r afael â phuteindra a throseddau cysylltiedig yn ardal Pilgwenlli.

- Gofynnodd y Cyng. T Watkins am safbwynt lleol ynghylch ystadegau cenedlaethol diweddar oed dyn dangos cynnydd mewn troseddau treisgar, ac adroddiadau wedi hynny yn y cyfryngau fod hyn i'w briodoli i lai o heddweision yn "cerdded y strydoedd". Atebodd y Prif Arolygydd nad oedd ef yn gweld cydberthynas rhwng y ddwy ffactor yng Nghasnewydd, gan grybwyll fod swyddogion rheng-flaen yn cael eu recriwtio, y ffactorau a all ddylanwadu ar ystadegau, a'r cynlluniau cadarn sydd yn eu lle i wneud y mwyaf o'r adnoddau sydd ar gael, e.e., yng nghanol y ddinas.

- Diolchodd y Cyng. Cleverly i'r swyddogion am eu gwaith yn y Betws yn ymateb i danau diweddar.

- Mewn ymateb i gwestiwn y Cyng. M Evans am wersylloedd sipsiwn a theithwyr, amlinellodd y swyddog y memorandwm dealltwriaeth sy'n bodoli rhwng yr heddlu a'r awdurdod lleol i sicrhau ymateb cymesur ym mhob achos.

- Mewn ymateb i bryderon nad yw swyddogion sy'n dod i gyfarfodydd ward yn wastad o safle ddigon uchel neu heb feddu ar y wybodaeth iawn i allu ymateb yn gywir i gwestiynau trigolion, cytunodd y Prif Arolygydd i drafod hyn gyda'r timau cymdogaeth.

- Mewn ymateb i gwestiwn y Cyng. Suller, amlinellodd y swyddog y gwaith sy'n cael ei wneud i atal ac ymdrin ag ymwneud pobl ifanc iawn mewn gwerthu cyffuriau.

- Mewn ymateb i gwestiwn y Cyng. Al-Nuaimi, amlinellodd y swyddog y gwaith sy'n cael ei wneud mewn partneriaeth ag adran drwyddedu'r Cyngor yn dilyn y digwyddiad yn Heol Cambrian er mwyn sicrhau canol y ddinas sy'n ddiogel a bywiog.

Diolchodd y Maer i'r Prif Arolygydd Blakemore am fod yn bresennol.

5. **Rhybudd o Gynnig: Toiledau Cyhoeddus Caerllion**

Ystyriodd y Cyngor gynnig y rhoddwyd y rhybudd priodol ohono. Y Cynghorydd Joan Watkins oedd y cynigydd, ac eiliwyd gan y Cynghorydd David Williams:

**Noda'r cyngor hwn ymateb chwyrn y cyhoedd i gau'r toiledau cyhoeddus yng Nghaerllion, ac anoga'r Cabinet i'w hadfer fel mater o frys.**

Wrth roi'r cynnig gerbron, crybwyllodd y Cynghorydd Joan Watkins ymateb y cyhoedd i'r cau, a'r angen am gyfleusterau o'r fath i annog mwy o ymwelwyr, yn ogystal â gwasanaethu anghenion y bobl leol.

Wrth eilio'r cynnig, soniodd y Cynghorydd David Williams am esiampl Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a ddygodd fusnesau lleol i mewn i ddarparu cyfleusterau amgen cyn cau unrhyw doiledau cyhoeddus.

Cynigiodd y Cynghorydd Debbie Wilcox y gwelliant canlynol i'r cynnig:

**Wedi "Noda'r Cyngor hwn":**

> **1. Y cyfleusterau toiledau cyhoeddus gwell yn Neuadd y Dref Caerllion, sydd yn cynnwys oriau agor hwy a'r ffaith fod gofalwr ar gael.**
>
> **2. Fod cytundeb llwyddiannus iawn ar y cyd gydag Amgueddfa Genedlaethol y Lleng Rufeinig wedi galluogi agor toiledau Broadway bob dydd yn ystod yr amser y mae'r Pafiliwn Criced yn cael ei brydlesu. Bydd y toiledau hyn yn aros ar agor tan 2019, gan baratoi'r ffordd i drafodaethau pellach gyda phartïon a all fod â diddordeb yn y dyfodol. Mae hyn yn wir hefyd am doiledau cyhoeddus eraill yng Nghasnewydd.**
>
> **Ymhellach, mae'r Cyngor hwn yn cydnabod y cyfleusterau toiled gwell sydd ar gael yng Nghaerllion ac yn cefnogi'r ymdrechion sydd yn digwydd i sicrhau dull o beri bod toiledau Broadway ar gael yn barhaol. Geilw ymhellach ar Lywodraeth y DU i wrthdroi eu hagenda llymder ac i gynyddu'r cyllid i gyllidebau awdurdodau lleol ledled y DU uwchlaw graddfa chwyddiant, i ganiatáu iddynt ddarparu gwell gwasanaethau cyhoeddus, sydd yn cynnwys toiledau cyhoeddus.**

Wrth gynnig ac eilio'r gwelliant, amlygodd yr Arweinydd a'r Dirprwy Arweinydd fel ei gilydd bwysau cyson llymder ar y Cyngor, a'r penderfyniadau a'r heriau anodd mae hyn yn olygu.

Gwnaed y pwyntiau canlynol yn erbyn y gwelliant:

- yr arbediad cymharol fychan a wnaed o gau'r cyfleuster
- yr angen i flaenoriaethu gwariant a gwrando ar bryderon y cyhoedd
- y syniadau amgen a gyflwynwyd gan y pwyllgor craffu yn ystod proses y gyllideb
- yr effaith ar dwristiaeth

Gwnaed y pwyntiau canlynol o blaid y gwelliant:

- y cyfleusterau gwell yn neuadd y dref i sicrhau darpariaeth amgen ddigonol
- effaith llymder ar gyllidebau awdurdodau lleol, sy'n golygu bod yn rhaid gwneud penderfyniadau anodd
- atebion amgen, e.e., grŵp cymunedol i ail-agor y cyfleuster fel caffi gyda thoiled cyhoeddus ym Maendy

Wrth ateb y gwelliant, cwestiynodd y Cynghorydd Joan Watkins lwyddiant y trefniadau gyda Neuadd y Dref, a thy6nnodd sylw at effaith y cau ar yr henoed a phobl fregus.

Gofynnodd y nifer angenrheidiol o aelodau etholedig am bleidlais wedi'i chofnodi.

Pleidleisiodd yr aelodau canlynol o blaid y gwelliant:

Cynghorwyr Al-Nuaimi, Berry, Clarke, Cockeram, Critchley, Davies, C Evans, Forsey, Giles, Guy, Harvey, R Hayat, Holyoake, Hourahine, Hughes, Jeavons, Jenkins, Lacey, Linton, Marshall, Mayer, Richards, Spencer, H Thomas, K Thomas, Truman, T Watkins, Whitcutt, a Wilcox – Cyfanswm o 29 pleidlais

Pleidleisiodd yr aelodau canlynol yn erbyn y gwelliant:

Cynghorwyr Cornelious, Dudley, M Evans, Ferris, Fouweather, Jordan, Kellaway, Mogford, Routley, Suller, J Watkins, White a Williams – Cyfanswm o 13 pleidlais

Ymataliodd rhag pleidleisio: Cynghorwyr Cleverly, C Townsend a H Townsend.

Felly, cariwyd y gwelliant.

Felly

**Penderfynwyd**

Mabwysiadu'r cynnig gyda'r gwelliant fel sydd wedi ei osod allan yn llawn uchod.

6. **Rhybudd o Gynnig: Lleihau'r Defnydd o Blastig yng Nghasnewydd**

Ystyriodd y Cyngor gynnig y darparwyd y rhybudd angenrheidiol ohono. Cynigiwyd gan y Cynghorydd Debbie Wilcox a'i eilio gan y Cynghorydd Mark Whitcutt:

**Penderfyna'r Cyngor hwn gychwyn y broses o leihau'r defnydd o blastig ar hyd a lled Dinas Casnewydd trwy wneud y canlynol:**

- Cefnogi Arfordiroedd Di-Blastig, ymrwymo i ddewisiadau amgen di-blastig a chefnogi mentrau di-blastig yn y ddinas
- Lleihau'r defnydd o blastig untro ar eiddo'r Cyngor a hyrwyddo gwneud i ffwrdd â phlastig untro o fannau eraill
- Annog busnesau a siopau lleol i roi'r gorau i ddefnyddio a gwerthu eitemau plastig untro, a rhoi eitemau amgen cynaliadwy yn eu lle
- Gweithio gyda rhanddeiliaid i leihau'r defnydd o blastig mewn ysgolion, colegau a llyfrgelloedd, canolfannau cymunedol a hamdden
- Hyrwyddo neu drefnu digwyddiadau cymunedol i ddileu gwastraff plastig o'n harfordir a mannau eraill ledled y Ddinas

**Dyma rai enghreifftiau allweddol o fannau lle byddwn yn targedu ein hymdrechion i leihau plastig untro a defnyddio eitemau eraill yn eu lle:**

- Cwpanau ailgylchadwy neu ailddefnyddiadwy
- Metel, compostadwy neu ddeunyddiau eraill yn lle cyllyll a ffyrc plastig
- Ffyn troi compostadwy neu ailddefnyddiadwy
- Bagiau papur neu bapur lapio yn hytrach na phlastig
- Poteli ailddefnyddiadwy yn hytrach na phlastig taflu

Wrth gyflwyno'r cynnig, tynnodd y Cynghorydd Wilcox sylw at effaith andwyol plastig ar yr amgylchedd, a'r dewisiadau cynaliadwy eraill sydd ar gael.

Eiliodd y Cynghorydd Whitcutt y cynnig, gan roi ystadegau ychwanegol am faint llygredd plastig.

Siaradodd nifer o Aelodau o blaid y cynnig, gan rannu profiadau personol yn ogystal ag enghreifftiau o wahanol ffyrdd y gall unigolion, busnesau a chyrff cyhoeddus helpu i leihau gwastraff plastig.

I gloi, diolchodd y Cyng. Wilcox i'r Aelodau am eu cyfraniadau a'u hawgrymiadau yn y maes pwysig hwn.

**Penderfynwyd**

Yn unfrydol i fabwysiadu'r cynnig fel y'i gosodir allan yn llawn uchod.

7. **Rhybudd o Gynnig: Adleoli Swyddfa'r AGPh**

Ystyriodd y Cyngor gynnig y darparwyd y rhybudd angenrheidiol ohono. Cynigiwyd gan y Cynghorydd Debbie Wilcox a'i eilio gan y Cynghorydd Mark Whitcutt:

Cyhoeddodd yr Adran Gwaith a Phensiynau y bydd pump o'u swyddfeydd ar draws de Cymru yn cau, gyda chyfanswm o 1,700 o staff yn cael eu canoli ar safle newydd ar Stad Ddiwydiannol Trefforest. Yn ychwanegol at Ganolfan Budd-daliadau Casnewydd gyda 365 o staff, mae Canolfan Budd-daliadau Caerffili gyda 225 o staff, ac ymysg y swyddfeydd fydd yn cau mae Canolfan Budd-daliadau Merthyr gyda 262 o staff, Canolfan Pensiynau Cwmbrân gyda 171 o staff a Chanolfan Gabalfa yng Nghaerdydd gyda 714 o staff.

**Er yn cydnabod fod yr AGPh, fel llywodraeth leol, yn ceisio gwneud newidiadau i'w gweithrediadau mewn ymateb i'r pwysau cynyddol oherwydd mesurau llymder, yr ydym yn bryderus am y penderfyniad i adleoli swyddi allan o ganol dinas Casnewydd, ac oblygiadau'r symud ar gynaliadwyedd at y dyfodol. Bydd hefyd yn cael effaith negyddol ar y staff sydd yng Nghasnewydd ar hyn o bryd na fydd yn gallu teithio, am amryw resymau, i'r lleoliad newydd sydd yn weddol bell, gan nad oes llwybrau cludiant cyhoeddus, ac y bydd hyn yn peryglu swyddi.**

**Mae'r Cyngor hwn felly yn penderfynu ysgrifennu at:**

**(i) Lywodraeth y DU i ofyn iddynt ail-ystyried adleoli Swyddfeydd AGPh Casnewydd, ac annog Llywodraeth y DU i gynnal trafodaethau ystyrlon gydag undeb llafur y PCS ar y mater hwn.**

**(ii) Llywodraeth Cymru yn gofyn iddynt ychwanegu eu cefnogaeth i safbwynt y PCS a gofyn iddynt ysgrifennu at Lywodraeth y DU yn mynegi eu cefnogaeth i'r ail-ystyried hwn.**

Wrth gyflwyno'r cynnig, tynnodd y Cynghorydd Wilcox sylw at effaith y cynigion, gan gynnwys y 300 o staff yng Nghasnewydd fydd yn teimlo'r effaith, a'r anghysondeb rhwng yr effaith arfaethedig a nodwyd gan yr AGPh, a'r dystiolaeth i'r gwrthwyneb a gyflwynwyd gan undeb y PCS.

Eiliwyd y cynnig gan y Cynghorydd Whitcutt.

Siaradodd Arweinydd yr Wrthblaid hefyd o blaid y cynnig, gan gymharu â'r ymgyrch i gadw'r Swyddfa Basbort yng nghanol y ddinas.

**Penderfynwyd**

Yn unfrydol i fabwysiadu'r cynnig fel y'i gosodir allan yn llawn uchod.

8. **Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus: Maesglas**

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet dros Drwyddedu a Rheoleiddio yr adroddiad sy'n gofyn i'r Cyngor gymeradwyo Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus i'r Maesglas. Esboniodd yr Aelod Cabinet gefndir y gorchymyn, sydd wedi ei ysgogi gan lefel uchel y cwynion am yr ardal o gwmpas y siopau lleol.

Wrth eilio'r adroddiad, cadarnhaodd y Cyng. Wilcox fod y cynigion wedi derbyn cefnogaeth yr aelodau ward lleol, ac mai'r nod oedd cyfyngu ar ymddygiad lleiafrif o bobl sydd yn ymddwyn yn fygythiol.

Wrth drafod yr adroddiad, codwyd y pwyntiau canlynol:

- yr angen i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a'i effaith negyddol ar gymunedau lleol
- pryderon mai'r cyfan a wnaiff cau ardal i ffwrdd fydd symud y broblem i rywle arall
- pwyntiau o blaid ac yn erbyn defnyddio GGMC fel y dull iawn o drin y broblem hon

Penderfynwyd

Yn unfrydol i gymeradwyo Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus: Maesglas, y mae'r manylion yn Atodiad D yr adroddiad

9. **Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus: Canol y Ddinas**

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet dros Drwyddedu a Rheoleiddio yr adroddiad sy'n gofyn i'r Cyngor gymeradwyo Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus diwygiedig i Ganol y Ddinas. Cadarnhaodd ei bod yn bryd adolygu'r gorchymyn presennol, a diolchodd i'r Aelodau craffu am eu hystyriaeth drylwyr o'r r broses hon.

Cynigiodd y Cynghorydd Matthew Evans y gwelliant canlynol i'r gorchymyn:

Gan gyfeirio at Atodiad B –Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus Diwygiedig Arfaethedig Canol Dinas Casnewydd 2018 – rhoi'r canlynol yn lle pwynt 5:

- Gwaherddir unrhyw berson ar stryd yn yr ardal gyfyngedig rhag rhoi ei hun, ar unrhyw adeg, mewn sefyllfa i gardota neu ofyn am arian.

Wrth siarad ar y gwelliant, dywedodd y Cynghorydd Matthew Evans nad oedd modd gorfodi'r gwaharddiad presennol ar gardota ymosodol, ac y byddai'r cynnig i gyflwyno parth gwahardd o gwmpas peiriannau arian yn creu'r un broblem.

Wrth eilio'r gwelliant, cefnogodd y Cyng. Fouweather awgrym y Cyng. Evans y byddai'n anodd gorfodi'r parth gwahardd.

Codwyd y pwyntiau canlynol yn y drafodaeth ar y:

- yr ymgynghorwyd eisoes ar y mater hwn a'i drafod gan y pwyllgor craffu, a bod yr heddlu yn cefnogi'r argymhellion
- nifer isel yr ymatebion i'r ymgynghoriad
- y byddai gwaharddiad llwyr ar gardota yn criminaleiddio rhai o aelodau mwyaf bregus cymdeithas
- manylion y cynllun newydd i gyfeirio rhoi

Yn dilyn pleidlais, collwyd y gwelliant.

Yr oedd trafodaethau am y cynigion gwreiddiol yn cynnwys y pwyntiau canlynol:

- y farn yn erbyn y cyfyngiadau arfaethedig ar gardota a fynegwyd gan asiantaethau yr ymgynghorwyd â hwy fel rhan o'r adolygiad.
- y trafodaethau trylwyr a gynhaliwyd yn y pwyllgor craffu ar y cynigion hyn
- y gwahanol resymau pam fod pobl yn troi at gardota
- canolbwynt y ddadl ar gardota, pan fo'r gorchymyn yn ymdrin â nifer o fesurau
- yr angen i ymateb yn gymesur a theg i'r materion hyn

Penderfynwyd

Cymeradwyo'r Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus estynedig a diwygiedig am ganol y Ddinas, y mae'r manylion yn Atodiad B yr adroddiad.

10. **Cynllun Rhyddhad Ardrethi'r Stryd Fawr 2018-19**

Cyflwynodd Arweinydd y Cyngor yr adroddiad sy'n gofyn i'r Cyngor fabwysiadu Cynllun Rhyddhad Ardrethi'r Stryd Fawr am 2018-19.

Y mae Llywodraeth Cymru unwaith eto wedi rhoi cyllid grant ar gael i awdurdodau anfonebu allu cyflwyno yn 2018-19 y Cynllun Rhyddhad Ardrethi'r Stryd Fawr er mwyn ysgafnhau'r baich ardrethi ar eiddo manwerthu yn y stryd fawr sydd yn gymwys. Mae uchafswm y cyllid am 2018-19 yn £139,250 ac y mae disgwyl i nifer o fusnesau elwa o ardrethi is o ganlyniad i'r Rhyddhad hwn.

Mae'r cynllun yr un fath, fwy neu lai, â'r un a gyflwynwyd yn 2017-18; yr unig wahaniaeth yw bod swm y rhyddhad sydd ar gael i fusnesau yn is.

Byddai trethdalwyr cymwys mewn un o ddau gategori, gyda haen 1 yn derbyn hyd at £250, a haen 2 lle byddai pob eiddo cymwys yn derbyn hyd at £750.

Amcangyfrifwyd y gallai tua 350 o drethdalwyr ledled y ddinas elwa o filiau ardrethi is dan y cynllun hwn.

Penderfynwyd

Yn unfrydol i fabwysiadu Cynllun Rhyddhad Ardrethi'r Stryd Fawr Llywodraeth Cymru am 2018-19 trwy wneud y penderfyniad priodol, yn ôl gofyniad Adrannau 47(1)(a) a 47(3) Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, ac a osodir allan yn yr Atodiad i'r adroddiad.

11. **Protocol Aelodau a Swyddogion**

Gan gynrychioli'r Pwyllgor Safonau, cyflwynodd y Cynghorydd Herbie Thomas yr adroddiad sydd yn cynnig diweddariad i'r Protocol Aelodau / Swyddogion yng nghyfansoddiad y Cyngor.

Cytunodd y Pwyllgor Safonau ar y Protocol gwreiddiol dros 15 mlynedd yn ôl, cyn cyflwyno'r Model o God Ymddygiad yng Nghymru. Cafodd y Protocol ei ddiweddaru yn rhannol o bryd i'w gilydd dros y blynyddoedd, ond ni chafodd erioed ei adolygu'n gyfan gwbl. Argymhellodd y Pwyllgor Safonau adolygiad cynhwysfawr rai blynyddoedd yn ôl, ond ni chafodd y cynnig ei gymeradwyo gan y  cyngor llawn oherwydd camddealltwriaeth ynghylch natur ac effaith y Protocol.

Yn eu cyfarfod ym mis Ionawr, cytunodd y Pwyllgor Safonau fod angen o hyd am y Protocol, i ategu'r codau rheoleiddio. Yr oedd y Pwyllgor hefyd o'r farn fod angen adolygu a chyfoesi'r Protocol presennol, fel sydd wedi ei osod allan yng Nghyfansoddiad y Cyngor, yn unol â'r ddogfen amgen, a gafodd ei drafftio fel rhan o'r Model o Gyfansoddiad Cymreig newydd.

Cafodd y protocol diwygiedig ei adolygu'n drylwyr gan y Pwyllgor, a'i ddiweddaru i adlewyrchu sylwadau'r Pwyllgor am y drafft gwreiddiol. Cafodd y protocol diwygiedig felly ei gadarnhau gan y Pwyllgor Safonau, a'r argymhelliad oedd iddo gael ei fabwysiadu.

**Penderfynwyd**

Yn unfrydol i fabwysiadu'r protocol diwygiedig ar berthynas Aelodau / Swyddogion.

12. **Cwestiynau i Arweinydd y Cyngor**

Cyhoeddiadau'r Arweinydd

Mewn ateb i'r cwestiwn cyntaf gan y Maer, gwnaeth yr Arweinydd y cyhoeddiadau canlynol:

- Y penderfyniad mewn egwyddor y mis hwn i gefnogi cynnig ail-ddatblygu gwerth £12 miliwn i adfywio Marchnad hanesyddol Casnewydd
- Sicrhau £1.1 miliwn o gyllid y Loteri Genedlaethol i adfer Arcêd y Farchnad i'w hen ogoniant.
- Caniatâd cynllunio i fwrw ymlaen ag ail-ddatblygu Tŵr y Siartwyr, i gynnwys gwesty newydd gyda champfa, man cynadledda, swyddfeydd, siop goffi a bwyty.
- Cytuno ar gefnogaeth ariannol gyda Llywodraeth Cymru ar gamau cychwynnol prosiect i ddatblygu pont droed newydd i gymryd lle isffordd Devon Place.
- Bwrw ymlaen i sicrhau cyllid i wneud gwaith atgyweirio hanfodol i'r Bont Gludo a'i gwella fel atyniad i ymwelwyr.
- Cabinet yn cytuno'n ddiweddar i ddatblygu hybiau Cymdogaeth newydd
- Cadarnhau gwobrau Baner Werdd i Barc Beechwood, Parc Belle Vue ac Amlosgfa Gwent.
- Digwyddiadau mawr i'w cynnal yn y ddinas, gyda Marathon Casnewydd, Felothon Cymru a'r Big Splash wedi'u cynnal yn ddiweddar, a Thaith Prydain a Gŵyl Fwyd ar y gweill ar gyfer yr hydref.

Darpariaeth Prifysgol

Gan gyfeirio at ymrwymiadau ym maniffesto Llafur i gefnogi addysg prifysgol yn y ddinas, holodd y Cynghorydd Matthew Evans am nifer y myfyrwyr prifysgol sy'n astudio ar hyn o bryd yng Nghasnewydd, gan ddyfalu ei fod yn is na'r 9,000 o fyfyrwyr oedd yn astudio yma yn 2012.

Rhoddodd yr Arweinydd sicrwydd i'r Cyngor fod llawer o waith yn cael ei wneud y tu ôl i'r llenni, gyda'r brifysgol fel partner allweddol yn y ddinas, ond nodwyd hefyd fod Prifysgol De Cymru (PDC) yn sefydliad annibynnol gyda'i gynllun busnes ei hun. Rhyddhaodd yr Arweinydd hefyd ddatganiad yn ddiweddar yn cefnogi ail-achredu cwrs hyfforddi athrawon PDC, sef 30% o fusnes PDC. Yr oedd y brifysgol a'i myfyrwyr yn werthfawr iawn i'r ddinas, ond hefyd yn ennyn parch fel menter breifat.

Gofynnodd y Cynghorydd Evans gwestiwn ategol am y berthynas gyda'r brifysgol, gan gyfeirio at y byd myfyrwyr ffyniannus a bywiog a arferai fodoli yn y ddinas, gyda dim ond cyfran fechan bellach o 20,000 o fyfyrwyr PDC yn dod i Gasnewydd. Yr oedd yr Arweinydd yn nodi ac yn deall pryderon y Cynghorydd Evans, gan groesawu cydweithio ar y mater hwn, a chytunodd i gyflwyno unrhyw syniadau mewn cyfarfodydd yn y dyfodol gyda'r Is-Ganghellor.

Tai Fforddiadwy

Gan gyfeirio at yr angen am dai fforddiadwy ac "effaith Bryste", gofynnodd y Cynghorydd Cleverly a fyddai'r Cyngor yn gweithredu trwy sefydlu cwmni adeiladau tai yn lleol.

Yr oedd yr Arweinydd yn cydnabod yr angen am fwy o dai fforddiadwy, ac er bod rhoi diwedd ar dollau'r bont i'w groesawu, yr oedd y newidiadau demograffig a achoswyd gan "effaith Bryste" yn codi pryderom am nifer y tai fforddiadwy oedd ar gael. Nodwyd y trosglwyddwyd stoc tai y Cyngor i Gartrefi Dinas Casnewydd yn 2009, ond cytunodd yr Arweinydd i ystyried y syniad.

Darpariaeth Prifysgol

Yn dilyn cwestiwn y Cynghorydd Evans, holodd y Cynghorydd Townsend a fyddai modd i ni weithio gyda phrifysgolion lleol eraill. Cadarnhaodd yr Arweinydd nad gyda PDC yn unig yr oedd perthynas, a bod y Cyngor yn agored i bob cynnig a chyfle i symud pethau ymlaen.

Cydraddoldeb

Mewn ymateb i gwestiwn y Cynghorydd Stephen Marshall, tanlinellodd yr Arweinydd ymrwymiad yr awdurdod i gydraddoldeb, fel y'i dangoswyd trwy'r cynllun cydraddoldeb strategol a'r cynllun iaith Gymraeg. Derbyniodd y Cabinet ddiweddariadau am y ddau gynllun ym mis Gorffennaf, ac fe'i cyflwynir i'r Cyngor ym mis Medi. I gloi, cynigiodd yr Arweinydd le ar y Grŵp Cydraddoldeb Strategol i Arweinydd yr Wrthblaid.

13. **Cwestiynau i Aelodau'r Cabinet**

Cyflwynwyd ac atebwyd y cwestiynau canlynol.

Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol / Aelod Cabinet dros Addysg a Sgiliau

*Gofynnodd y Cynghorydd Joan Watkins:*

Datgelodd Cwestiwn ar Unrhyw Adeg diweddar ar broblem cost lleoliadau allan o'r ardal i blant yng Nghasnewydd fod y ffigwr yn awr yn £4,683,192. A fyddai'r Aelod Cabinet yn cytuno fod hwn yn swm enfawr sydd yn peri pryder difrifol? Deallaf fod plant yn cael eu lleoli mor bell â'r Alban, a bydd pellterau o'r fath yn cynyddu'r gost i'r awdurdod o ran amser a theithio i weithwyr cymdeithasol, etc. Hefyd, gall lleoli plentyn mor bell oddi wrth ei deulu a'i gyfeillion gael effaith andwyol ar y plentyn hwnnw. Pa fesurau sydd ar gael i ymdrin â'r pwnc hwn fel mater o frys?

Beth yw'r amserlen ar gyfer darparu'r ysgol arbennig ACEY a grybwyllwyd a pha fesurau eraill sydd ar gael i leihau'r gost hon trwy wneud y ddarpariaeth yng Nghasnewydd?

*Atebodd yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol:*

Mynegodd yr Aelod Cabinet syndod fod y cwestiwn hwn wedi ei gyflwyno pan fo manylion eisoes wedi eu rhannu yn nau gyfarfod diwethaf y pwyllgor craffu, yn y Fforwm Rhieni Corfforaethol ac yn y Cabinet; fodd bynnag, croesawyd y cwestiwn er mwyn cofnodi'r hyn oed dyn cael ei wneud i drin y broblem hon.

Cadarnhawyd fod y Gwasanaethau Plant yn cydnabod yr angen i gynnal ein plant mwyaf bregus yn agos i Gasnewydd a'u bod wedi neilltuo prosiect 'buddsoddi i arbed' er mwyn lleihau nifer y lleoliadau allsirol.

Mae gan y Gwasanaethau Plant ar hyn o bryd 10 gwely preswyl i blant yn Nhŷ Caergrawnt a Forest Lodge. Bu'r cartrefi hyn yn llawn am y rhan fwyaf o'r flwyddyn hon. Yn ychwanegol, mae cartref Oaklands yn cynnig gofal seibiant i blant ag anableddau, a bu hyn yn gefnogaeth i lawer o deuluoedd o ran gofalu am eu plant gartref, a lleihau derbyniadau posib i ofal yr awdurdod lleol.

Ar hyn o bryd, y mae 27 o blant mewn lleoliadau preswyl allsirol. Gwnaed y rhan fwyaf o benderfyniadau am leoliadau trwy'r llysoedd ac y mae'n rhaid felly eu dilyn - ac y mae cynghorau ledled y wlad yn wynebu'r pwysau hyn.

O'r 27 plentyn a letyir yn allsirol:

- Bydd 4 yn cyrraedd 18 oed eleni ac felly yn symud ymlaen o ofal preswyl neu byddant yn trosglwyddo i wasanaeth oedolion.
- Mae gan 5 anableddau ac wedi eu gosod mewn lleoliad preswyl arbenigol, o fewn pellter gyrru 20 munud o Gasnewydd.

Cytunwyd i neilltuo £1.5 miliwn i ddatblygu 3 o gartrefi plant newydd, fydd yn golygu cynnydd o 12 gwely.

Mae'r cartref cyntaf, Rose Cottage, i fod i agor ddiwedd eleni, a bydd yn caniatáu i 4 plentyn ddychwelyd i Gasnewydd.

Mae tîm y prosiect wedi nodi'r meini prawf delfrydol ar gyfer cartrefi, ac yn parhau i chwilio am fwy o eiddo addas lle gallwn gynnig darpariaeth breswyl o safon i blant Casnewydd.

I gloi, mae gwaith yn cael ei wneud yn genedlaethol ac yn rhanbarthol i fynd i'r afael â'r prinder o leoliadau addas i blant mewn gofal. Yng Nghasnewydd, yn ogystal â chwarae ein rhan lawn yn y gwaith ehangach, rydym hefyd yn canolbwyntio ar ddatblygu atebion yng Nghasnewydd i blant Casnewydd. Yn ogystal â'r gwaith i gynyddu ein dewisiadau preswyl, yr ydym hefyd yn edrych i mewn i gefnogaeth ehangach i blant mewn gofal maeth, ac am recriwtio am fwy o leoliadau maeth.

*Atebodd yr Aelod Cabinet dros Addysg a Sgiliau:*

Yr wyf wedi gofyn i'r swyddogion gynnal ymarferiad cwmpasu i sefydlu ysgol ACEY yn ein dinas fel y gallwn roi darpariaeth leol i ddisgyblion lleol. Yr ydym hefyd yn gweithio gydag awdurdodau lleol eraill sydd ag ysgolion ACEY llwyddiannus fel y gallwn rannu arferion da yn y cyfnod cynnar hwn. Rwy'n credu y bydd sefydlu ysgol ACEY yng Nghasnewydd yn rhoi gwell gwerth am arian.

Ni allaf roi union amserlen i chi am pryd y gallwn sefydlu ysgol ACEY, ond gallaf eich sicrhau ein bod yn asesu ein hasedau cyfalaf er mwyn dod o hyd i le addas. Buaswn yn disgwyl i'r ymarferiad hwn gael ei gwblhau erbyn mis Hydref 2018.

Dylwn nodi fod gennym record flaenorol o lwyddiant i sefydlu darpariaeth leol ar gyfer anghenion cymhleth. Ysgol Bryn Derw oedd yr ysgol ASA gyntaf i agor yn y rhanbarth ym mis Medi 2017. Caniataodd y ddarpariaeth leol hon i ni ddod a disgyblion allsirol yn ôl i Ysgol Arbennig leol ac i atal mwy o ddisgyblion rhag gorfod mynd i ddarpariaeth allsirol.

Mae gwariant Casnewydd ar ddarpariaethau Allan o'r Ardal yn fawr; er hynny, rai wythnosau'n ôl yn unig, atebais Gwestiwn ar Unrhyw Adeg gan y Cyng. Watkins gan ddweud nad oes data cenedlaethol yn cael ei gasglu ledled Cymru fel bod modd meincnodi'r ffigwr hwn, a rhoi cymhariaeth ystyrlon gydag awdurdodau lleol eraill. Mae'r Arweinydd a minnau wedi mynegi ein pryder wrth Ysgrifennydd y Cabinet trwy CLILC. Mae pawb yn cytuno ar yr angen am adolygiad cenedlaethol o lefydd Addysg Allsirol fel y gallwn oll ddeall y mater a mynd i'r afael â'r broblem.

Pan fyddaf yn ystyried gwariant allsirol Casnewydd, rwyf yn falch ar y naill law fod disgyblion a nodwyd fel rhai ag anghenion cymhleth wedi cael y ddarpariaeth addysgol briodol. Rwy'n siŵr y cytunwch fod hyn yn hanfodol bwysig, ond fel Aelod Cabinet dros Addysg a Sgiliau ar y llaw arall, rwy'n pryderu am gost uchel lleoliadau allsirol sy'n cael ei godi gan ddarparwyr preifat, annibynnol ar awdurdodau lleol. Un enghraifft o hyn yw £85,000 am un disgybl mewn Ysgol ACEY (Anhwylderau Cymdeithasol, Emosiynol ac Ymddygiadol).

Serch hynny, pan fo plentyn angen lleoliad allsirol 'addysgiadol', yr ydym yn gallu gweithio o fewn cwmpas cymharol fychan. Mae disgyblion fel arfer yn cael eu lleoli yng Nghaerdydd, Caerffili a Sir Fynwy (oll yn awdurdodau lleol cyfagos).

Yn olaf, carwn ychwanegu ei bod yn annhebygol iawn i unrhyw awdurdod lleol fod a phobl disgybl ag anghenion cymhleth yn derbyn eu haddysg yn eu hardal. Mae ar rai disgyblion â'r lefel uchaf o anghenion cymhleth yn gorfod cael cefnogaeth mor arbenigol (sylw meddygol cyson) fel mai darparwr arbenigol yn unig all ateb yr anghenion hynny. Mae hyn yn iawn ac yn gyfiawn.

*Cwestiwn atodol:*

Mewn ymateb i gwestiwn ategol y Cynghorydd Watkins i'r Cynghorydd Cockeram, darparwyd rhai manylion ychwanegol am brynu Rose Cottage.

---

Aelod Cabinet dros Gymuned ac Adnoddau

*Gofynnodd y Cynghorydd Tom Suller:*

Rhwng Ionawr - Gorffennaf 2017 derbyniodd y cyngor gyfanswm o 170,371 o alwadau; er hynny, daeth 39,254 o bobl a'r alwad i ben oherwydd iddynt orfod aros cyhyd.

Rwy'n dal i glywed adroddiadau gan y cyhoedd am amseroedd aros o fwy nag 20 munud ar rai adegau yn ystod yr wythnos.

A yw'r cyngor yn meddwl ei bod yn dderbyniol gwneud toriad i wasanaethau o £20,00k yn y gyllideb gyfredol, pan fo dadl y dylid gwella'r gwasanaeth? A yw hefyd yn wir fod y cyngor am weld hyd at 80% o holl ymholiadau'r cyhoedd yn cael eu hateb ar-lein dros y 2-3 blynedd nesaf?

*Atebodd yr Aelod Cabinet:*

Mae'r arbedion y cyfeirir atynt yn rhan o ymdrech y Cyngor i ymdrin â'r gostyngiad mewn arian gan y Llywodraeth dan y CATC (Cynllun Ariannol Tymor Canol). Cytunodd y Cyngor llawn ar yr arbedion fel rhan o'r gyllideb gyffredinol ym mis Chwefror 2018.

Atebodd Canolfan Gyswllt y Ddinas 243,886 o alwadau yn 2017/2018 ac yr oedd yr amser cyfartalog a gymerwyd i ateb yn llai na 5 munud; fodd bynnag, fe all fod adegau fel bore Llun neu ar ôl gwyliau banc pan fo'r llinellau yn brysurach nag arfer a'r amseroedd aros yn hwy. Yr oedd galwadau am y Gwasanaethau Cymdeithasol yn cael eu hateb ar gyfartaledd ymhen 79 eiliad. Mae cwsmeriaid yn cael gwybod faint o amser i aros pan fyddant yn galw fel y gallant naill ai aros i siarad â rhywun neu alw ar adeg llai prysur.

Mae dros 60% o drafodion eisoes yn cael eu gwneud ar-lein gan gwsmeriaid, a rhagwelir y bydd hyn yn cynyddu dros amser wrth i fwy a mwy o drigolion ddisgwyl gallu cynnal trafodion yn rhwydd ac yn gyflym 24 awr y dydd, saith diwrnod yr wythnos. Yn ddiweddar, cyhoeddodd y Swyddfa Ystadegau Genedlaethol adroddiad ar ddefnydd o'r rhyngrwyd yn y DU a ganfu fod 88.9% o drigolion Cymru wedi defnyddio'r rhyngrwyd yn ystod y 3 mis a aeth heibio. Dan Strategaeth Ddigidol y Cyngor, nod y Gwasanaethau Cwsmeriaid yw cyflwyno gwell gwasanaethau ar-lein a dal i gefnogi'r sawl a all fod wedi eu heithrio yn ddigidol.

*Cwestiwn atodol:*

Mewn ymateb i gwestiwn atodol y Cynghorydd Suller am eithrio digidol, soniodd yr Aelod Cabinet am y cyrsiau sy'n cael eu cynnig mewn nifer o leoliadau cymunedol i helpu pobl i fynd ar-lein.

---

Aelod Cabinet dros Drwyddedu a Rheoleiddio

*Gofynnodd y Cynghorydd Joan Watkins:*

"Y mater allweddol a godwyd trwy'r broses ymgynghori yw na fyddai'n briodol bwrw ymlaen a'r CCA hyd nes y cynhyrchwyd Cynlluniau Gweithredu Ansawdd Aer ar gyfer pob Ardal Rheoli Ansawdd Aer (ARhAA) a'u mabwysiadu gan y Cyngor, neu i adolygiad o'r Polisi Cynllunio gael ei gynnal. Y teimlad yw, heb y cynlluniau gweithredu, y bydd yn heriol i ddatblygwr gynhyrchu cynllun lliniaru, ac y byddai'r lliniaru a gynigid yn bytiog ac yn anghyson."

Ymhellach i'r uchod

Mae gan Gaerllion un o'r ardaloedd gwaethaf am lygredd aer yng Nghymru, ac y mae ganddi ARhAA ar hyd ei Stryd Fawr. A all y cyngor roi eglurhad pam fod y Cynlluniau Gweithredu Ansawdd Aer yn cymryd cyhyd i ddod i fwcwl? Ac yn sgil y cynlluniau, a fydd y cyngor yn rhoi gwarant y bydd diweddariadau yn y dyfodol i'r CDLl yn cynnwys canllawiau i ddatblygwyr tai y dylent osgoi ardaloedd lle mae Parthau Rheoli Ansawdd Aer yn bodoli?

*Atebodd yr Aelod Cabinet:*

Cafodd Canllaw Cynllunio Atodol y Cyngor am ansawdd aer ei fabwysiadu ym mis Chwefror 2018 ac y mae'n rhoi cyfarwyddyd clir am ddatblygiadau mewn Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer neu'n agos atynt. Nid oes gan yr un awdurdod Cymreig arall ganllawiau cynllunio mor llym am ansawdd aer. Mae'r CCA yn atal unrhyw gynigion datblygu y disgwylir iddynt gael effaith annerbyniol ar iechyd dynol oherwydd llygredd aer.

Mae'r polisi hwn eisoes yn rhan o'r CDLI, a bydd mesurau rheoli yn cael eu diweddaru i adlewyrchu unrhyw newidiadau mewn polisïau a chanllawiau cenedlaethol.

Yn ystod yr ymgynghori ar y CCA Ansawdd Aer, gwnaed y sylw y byddai'n heriol i ddatblygwr gynhyrchu mesurau lliniaru ansawdd aer heb Gynllun Gweithredu ARhAA i Gaerllion. Fodd bynnag, nid pwrpas y CCA oedd datrys y problemau presennol gydag ansawdd aer, ond yn hytrach ddelio ag effaith datblygiadau yn y dyfodol.

Mae Cynllun Gweithredu ansawdd aer yn golygu llawer mwy nag ymdrin â lefelau llygredd aer; maen gwirionedd, y mae'n gynllun teithio cynaliadwy fydd yn cael effaith ar bob dull o deithio ledled y ddinas. Bydd yn cynnwys bysiau, cerbydau trydan, pwyntiau gwefru, teithio llesol, seiclo a cherdded. Bydd y Cynllun Gweithredu yn bolisi arwyddocaol i'r ddinas fydd ag oblygiadau i ni oll. Dyma'r rheswm pam y cymerodd cymaint o amser i lunio ein hagwedd. Nawr bod yr ARhAA diwygiedig yn eu lle (o 1 Gorffennaf 2018 ymlaen), bydd yr ymgynghoriad cyhoeddus llawn ar y drafft o Gynllun Gweithredu yn dechrau toc.

Carwn nodi hefyd, tra bod y drafft o Gynllun Gweithredu yn cael ei baratoi, fod gwaith eisoes wedi cychwyn ar nifer o fentrau amgylcheddol eraill, er enghraifft, cyllid ar gyfer cynllun arbed tanwydd i gwmnïau fflyd, cyllid i'r rhwydwaith feicio integredig, bid am fysiau trydan i redeg trwy Gaerllion, a nifer o astudiaethau manwl ar lif traffig a monitro allyriadau yng Nghaerllion. Hefyd, mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn mynd ati i ddatblygu Cynllun Teithio Cynaliadwy.

Felly, mae'r weinyddiaeth hon wedi ymrwymo i wella ansawdd aer yng Nghasnewydd a gellir cymharu perfformiad y Cyngor gydag ardaloedd trefol mawr eraill yng Nghymru.

---

*Gofynnodd y Cynghorydd David Fouweather:*

Bydd yr Aelod Cabinet yn ymwybodol fod problem gyda baw cŵn ledled y ddinas. Yn 2017 dim ond pum cosb benodol a roddwyd. A yw'n hyderus bod y mater hwn yn cael ei drin yn briodol gan ei adran, a pha gynlluniau sydd ganddo i sicrhau y caiff trigolion sy'n caniatau i'w cŵn faeddu rybuddion cosb benodol?

*Atebodd yr Aelod Cabinet:*

Oherwydd mesurau llymder a gostyngiad mewn adnoddau dros y blynyddoedd, gostyngwyd maint tîm y Wardeniaid Diogelwch Cymunedol o draean ers 2010. Mae'r tîm hefyd wedi ymgymryd â dyletswyddau statudol ychwanegol er mwyn sicrhau bod swyddogaethau rheoleiddio yn dal i gael eu cyflawni yn dilyn gostyngiad mewn adnoddau mewn rhannau eraill o'r portffolio Trwyddedu a Rheoleiddio, megis cwynion am sŵn a chasglu cŵn strae. Mae'n wir hefyd fod hwn yn faes anodd i'w orfodi, oherwydd bod troseddwyr yn llawn ymwybodol o'r gyfraith ac yn aml yn gwneud yn siwr nad yw eu cŵn yn baeddu pan fod swyddogion y Cyngor yn y cyffiniau. Felly, mae nifer y rhybuddion cosb benodol am faw cŵn wedi bod yn isel o gymharu â throseddau eraill fel gollwng sbwriel, am ei bod yn hynod adnodd dal y sawl sy'n troseddu. Fodd bynnag, buasem yn annog aelodau'r cyhoedd i adrodd am droseddwyr, lle maent yn gweld cŵn yn baeddu.

Bydd y Gwasanaeth Wardeniaid Diogelwch Cymunedol yn parhau i gymryd camau gorfodi yn y maes hwn, ochr yn ochr â'u dyletswyddau rheoleiddio statudol eraill megis niwsans sŵn ac ymddygiad gwrthgymdeithasol; mae'r naill a'r llall yn flaenoriaethau uchel i'r Cyngor a sefydliadau sy'n bartneriaid.

*Cwestiwn atodol:*

Mewn ymateb i gwestiwn atodol y Cynghorydd Fouweather am yr angen i fynd i'r afael â'r mater hwn, esboniodd yr Aelod Cabinet yr angen i gael tystiolaeth am droseddau er mwyn trin y broblem yn llwyddiannus, ond anogodd y cyhoedd i ddal ati i adrodd am y materion hyn fel y gall y staff ymateb.

14. **Cwestiynau i Gadeiryddion Pwyllgorau**

Nid oedd cwestiynau i Gadeiryddion Pwyllgorau.

15. **Cofnodion Pwyllgor Safonau**

Nodwyd cofnodion cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Safonau.

Daeth y cyfarfod I ben am Time Not Specified